

2020 Rhif (Cy. )

2020 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A470  
(Cyffordd 19 (Cyfnewidfa  
Llansanffraid Glan Conwy),  
Bwrdeistref Sirol Conwy)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2020

The A470 Trunk Road (Junction 19  
(Glan Conwy Interchange), Conwy  
County Borough) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2020

*Gwnaed* 27 Ebrill 2020

*Made* 27 April 2020

*Yn dod i rym* 1 Mai 2020

*Coming into force* 1 May 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Mai 2020.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Junction 19 (Glan Conwy Interchange), Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 1 May 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 ar 1 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:30 on the 1 May 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ebrill 2020

*Nicci Hunter*  
Arweinydd Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLEN**

### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn cyfan o gerbyttffordd gylchredol yr A470 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Conwy.

Cefnffordd yr A470 sy’n ymestyn o gerbyttffordd gylchredol yr A470 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) hyd at gyffordd Cylchfan y Black Cat.

### **GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYFFORDD 19 (CYFNEWIDFA LLANSANFFRAID GLAN CONWY), BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 19 o gefnffordd yr A55 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) Bwrdeistref Sirol Conwy.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 27 April 2020

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

## **SCHEDULE**

### **Temporary Prohibition of Vehicles**

The entire length of the A470 gyratory carriageway at Junction 19 (Glan Conwy Interchange), Conwy.

The A470 trunk road that extends from the A470 gyratory carriageway at Junction 19 (Glan Conwy Interchange) to its junction with Black Cat Roundabout.

### **THE A470 TRUNK ROAD (JUNCTION 19 (GLAN CONWY INTERCHANGE), CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Junction 19 of the A55 trunk road (Glan Conwy Interchange), Conwy County Borough.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A470 trunk road specified in the Schedule to this notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in that Schedule.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A470 a bennir yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (19:30 o'r gloch hyd 07:00 o'r gloch) o 1 Mai 2020 hyd 31 Gorffennaf 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darn cyfan o gerbyffordd gylchredol yr A470 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Conwy.

Y darnau o gerbyffyrdd tua'r de a thua'r gogledd yr A470 sy'n ymestyn o gerbyffordd gylchredol yr A470 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) hyd at gyffordd Cylchfan y Black Cat.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd sy'n dymuno mynd ar yr A55 wrth gyffordd 19 o Gylchfan y Black Cat fydd dilyn y dargyfeiriad tua'r dwyrain ar yr A457 Conway Road i ymuno â'r A55 wrth gyffordd 20, a bydd traffig sy'n teithio tua'r de sy'n dymuno mynd ar yr A55 wrth gyffordd 19 yn

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (19:30 hours until 07:00 hours) from 1 May 2020 until 31 July 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles and Alternative Routes

The entire length of the A470 gyratory carriageway at Junction 19 (Glan Conwy Interchange), Conwy.

The lengths of the A470 southbound and northbound carriageways that extend from the A470 gyratory carriageway at Junction 19 (Glan Conwy Interchange) to the junction of Black Cat Roundabout.

The alternative route for northbound traffic wishing to access the A55 at junction 19 from Black Cat Roundabout will be diverted eastbound on the A457 Conway Road to join the A55 at junction 20, whilst southbound traffic wishing to access the A55 at junction 19, will be diverted northbound on the A470 Conway Road, eastbound on the B5115 Colwyn Road and south-eastbound on Llandudno Road and Brompton Avenue to join the A55 at junction 20. Vice versa for traffic wishing to exit the A55 at junction 19.

cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd ar yr A470 Conway Road, tua'r dwyrain ar y B5115 Colwyn Road a thua'r de-ddwyrain ar Llandudno Road a Brompton Avenue i ymuno â'r A55 wrth gyffordd 20. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n dymuno ymadael â'r A55 wrth gyffordd 19.